# Y Gallu i Greu - Newidiadau Syml

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

## Cymru Ffyniannus

1. Cefnogi busnesau bach a chanolig (SMEau), busnesau cymdeithasol a chydweithredol i gydweithio i geisio ar y cyd am gytundebau.
2. Penodi pencampwyr gwerth cymdeithasol.
3. Cynnal syrjeris rheolaidd ar gyfer cyflenwyr.
4. Cyhoeddi a dadansoddi data am y dull y byddwch chi'n caffael nwyddau a gwasanaethau.
5. Talu eich cyflenwyr yn brydlon.
6. Dod yn gyflogwgr Cyflog Byw.
7. Archwilio dewisiadau cyllido, neu gefnogi grwpiau cymunedol i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar dir cyhoeddus.
8. Sicrhau fod pob datblygiad newydd ac ôl-osod cyfleusterau sy'n bodoli eisoes yn ystyried ffynonellau ynni adnewyddadwy a deunyddiau a ailgylchwyd.
9. Gwneud yn fawr o'r potensial ar gyfer prentisiaethau yn eich sefydliad.
10. Ystyried cyfleoedd i secondio staff oddi mewn i sefydliadau a rhyngddynt, er mwyn rhannu gwybodaeth a datblygu sgiliau trosglwyddadwy.

## Cymru Wydn

11. Rheoli ymylon ffyrdd a llecynnau glas cysylltiedig (fel lle o gwmpas adeiladau) ar gyfer blodau gwyllt ion ac i beillio.
12. Lleihau'r defnydd o blaladdwyr a gwrteithiau ar ymylon ffyrdd a llecynnau glas trefol.
13. Defnyddio compost di-fawn mewn cynlluniau plannu ledled dinasoedd, trefi a phentrefi.
14. Mapio tir cyhoeddus i adnabod a hysbysu am dir sy'n agored i gael ei ddefnyddio gan grwpiau cymunedol, gyda'r bwriad o gysylltu cynefinoedd bywyd gwyllt.
15. Cynnwys addysg 'isadeiledd gwyrdd / bioamrywiaeth' ar gyfer staff ar draws POB adran.
16. Hwyluso cyfleoedd i staff wirfoddoli gyda sefydliadau amgylcheddol yn ystod eu gwaith neu'r tu allan iddo
17. Galluogi partneriaethau lleol ar gyfer pob agwedd ar yr amgylchedd naturiol, gan ddod â chynrychiolwyr o sefydliadau lleol gwirfoddol a sector gyhoeddus at ei gilydd.
18. Caffael a phlannu coed a llwyni brodorol yn unig yn ddewis cyntaf.
19. Mabwysiadu polisi plastig un-defnydd, er mwyn dileu plastig un-defnydd o'ch ystâd.
20. Darparu lle ar gyfer bywyd gwyllt, fel blychau adar, cartrefi i drychfilod, pyllau dŵr a bocsys ystlumod – yn enwedig mewn datblygiadau newydd.

## Cymru Iachach

21. Ystyried iechyd meddwl yn eich gweithle.
22. Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl a hunanladdiad i bob aelod o staff.
23. Adolygu eich polisïau i sicrhau eich bod chi'n gwneud yn fawr o gyfleoedd i wella iechyd a llesiant eich cyflogai.
24. Darparu loceri ar gyfer eich gweithwyr.
25. Cael polisi gweithio hyblyg.
26. Annog eich cyflogeion i gymryd seibiant a bwyta i ffwrdd o'u desgiau.
27. Annog pwyllgorau ar eich traed neu wrth gerdded, ble bo'n addas.
28. Adeiladu darlun o pa mor hawdd yw hi yn eich gweithle chi i bobl sydd eisiau cerdded, seiclo neu ddefnyddio ac adnabod meysydd ble gellir gwella.
29. Ystyried sut y gallwch sicrhau fod gan blant fynediad i chwarae awyr-agored beunyddiol.
30. Ystyried cefnogi eich cymunedau i ailgynllunio'u strydoedd i wella'u iechyd a'u lles.

## Cymru Fwy Cyfartal

31. Gwneud gwybodaeth gyhoeddus yn hygyrch drwy amrywiaeth o fformatau.
32. Cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth byddardod a Iaith arwyddo Prydeinig (BSL) ar gyfer eich rheng flaen.
33. Annog eich staff i ymweld â phroseictau lleol a chwrdd â'r bobl leol allweddol sy'n gyrru newid.
34. Hybu cyfleoedd i rannu swyddi ymysg cynrychiolwyr etholedig, fel cynghorwyr.
35. Darparu 'llwybrau cerdded' drwy eich gwasanaethau ar gyfer eich staff (yn enwedig y rheiny mewn safleoedd gwneud penderfyniadau) ac arweinwyr llywodraethiant.
36. Sicrhau fod eich staff yn ymgymryd â hyfforddiant am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE).
37. Sicrhau fod gweithwyr yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
38. Cyhoeddi data ar nodweddion a warchodir a graddau cyflog yn y gweithlu, gan gynnwys y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.
39. Rhoi mentrau ar waith i recriwtio pobl o blith grwpiau a dangynrychiolir yn eich gweithlu.
40. Gosod targedau ar gyfer cadw merched sy'n dychwelyd o absenoldeb mamolaeth.

Y Gallu i Greu - Newidiadau Syml

41. Galluogi pobl leol i wella gofod nad yw'n cael ei garu.

42. Archwilio potensial credydau amser yn eich sefydliad.

43. Chwarae eich rhan mewn galluogi pobl leol i ddod ynghyd mewn cymunedau i gwrdd ac adeiladu rhwydweithiau cymdeithasol.

44. Archwilio a allech chi ddefnyddio dulliau cyllidebu cyfranogol i alluogi pobl i wneud penderfyniadau ynghylch sut y rhennir rhywfaint o gyllid.

45. Ystyried cefnogi cymunedau a / neu eich sefydliad i ddod yn ddementia-gyfeillgar.

46. Rhoi cyhoeddusrwydd i gyfleoedd gwirfoddoli yn lleol.

47. Archwilio cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau rhwng y cenedlaethau.

48. Annog cyfleoedd trafnidiaeth cymunedol.

49. Helpwch staff a phreswylwyr i gynilo a benthyca gydag undebau credyd lleol.

50. Mapio'r sefydliadau cymunedol sy'n angori'r gwaith a wnewch ac archwilio cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

## Cymru o Gymunedau Cydlynus

51. Sicrhau fod gan bob un o'ch pwyntiau mynediad gyfarchion dwyieithog

52. Defnyddio atalnod Iaith Gwaith Cymraeg ar linynnau gwddf a llofnodion e-bost pob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ac sy'n dysgu.

53. Annog eich staff i gofrestru am eu cerdyn llyfrgell rhad ac am ddim, ac i'w ddefnyddio, gan roi gwybodaeth hygyrch am yr hyn a gynigir gan y llyfrgell.

54. Cymryd rhan yn y Diwrnod Chwarae Cenedlaethol.

55. Hybu cyfleoedd i bobl hŷn ymgysylltu â diwylliant drwy gyfrwng Gŵyl Gwanwyn.

56. Sicrhau fod lleoliadau celfyddydol yr ydych chi'n gweithio gyda nhw'n rhan o'r Cynllun Mynediad Cenedlaethol (Hynt).

57. Ystyried y cyfleoedd i gefnogi a datblygu clybiau lleol sy'n ymwneud â chwaraeon.

58. Rhoi mynediad rhad ac am ddim i ParkRun ar unrhyw dir cyhoeddus.

59. Cefnogi a hybu'r Cynllun Noson Allan.

60. Gwneud yn siŵr fod mynediad rhad ac am ddim i amgueddfeydd, llyfrgelloedd a llecynnau glas yn parhau.

## Diwylliant Llachar ac Iaith Gymraeg Ffyniannus

61. Adolygu eich polisi caffael a sicrhau ei fod yn cynnwys arferion teg a moesegol (i gynnwys cyngor gwarchodaeth forol a chyngor gwarchodaeth coedwigaeth).

62. Gwirio a yw eich cytundebau'n cwrdd ag anghenion y Ddeddf Caethwasaeth Fodern.

63. Gwneud un peth o blaid addysg fydeang fel ymwneud â Diwrnod Troi'n Wyrdd neu Awr y Ddaear.

64. Sicrhau fod eich sefydliad yn cymryd rhan ym Mhythefnos Masnach Deg.

65. Hybu cyfleoedd arwain i'ch staff er mwyn iddyn nhw ddeall cyd-destunau bydeang.

66. Adolygu eich agwedd at ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chwarae eich rhan wrth beri i Gymru ddod yn Genedl Loches.

67. Defnyddio papur a ailgylchwyd yn unig a gosod dyddiad ar gyfer bod yn rhydd o bapur. Wrth argraff, symud i gyfeiriad defnyddio inc a wnaed o soy yn unig.

68. Cyfrifo a deall ôl troed carbon eich sefydliad.

69. Cefnogi eich staff ac ymwelwyr i ddeall eu hôl troed carbon personol

70. Adolygu eich cytundebau ynni, darparwyr peniwn a'ch portffolios buddsoddi a lleihau eich baich ar y blaned a'i phobl.

## Cymru sy'n Gyfrifol yn Fydeang

71. Wneud ymarfer 'fe ddywedoch chi fe wnaethon ni'.

72. Mynd â chyfleoedd ymwneud at y bobl, yn hytrach na disgwyl iddyn nhw ddod atoch chi.

73. Sicrhau eich bod chi'n cael sgyrsiau 'beth sy'n bwysig'.

74. Hyfforddi staff perthnasol mewn egwyddorion ac arferion ymwneud cyhoeddus.

75. Cynnwys ymwneud cyhoeddus mewn cynllunio, monitro, adrodd a gwerthuso staff.

76. Defnyddio Cymraeg a Saesneg plaen yn arferol ymhob dogfen a fwriedir ar gyfer y cyhoedd.

77. Defnyddio amrywiaeth o ddulliau a fformatau ymwneud hygyrch a chynhwysol.

78. Rhannu cyfleoedd a data ymwneud cyhoeddus â sefydliadau eraill.

79. Ymwneud ar thema yn hytrach na pholisi.

80. Cynnwys pobl ar y cyfle cyntaf posibl.

## Ymwneud